Cynllun diben ar gyfer cyflawni diben cyhoeddus y BBC: Trosglwyddo manteision gwasanaethau a thechnolegau cyfathrebu newydd i'r cyhoedd

Diffiniad Ymddiriedolaeth y BBC o gylch gwaith y diben

Gall gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr ddisgwyl i'r BBC helpu pawb yn y DU i fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau cyfryngau newydd yn awr ac yn y dyfodol.

Blaenoriaethau'r diben

Mae Ymddiriedolaeth y BBC, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, wedi rhannu'r cylch gwaith hwn yn chwe blaenoriaeth benodol:

1 Sicrhau bod cynnwys a gwasanaethau deniadol digidol ar gael ar ystod eang o lwyfannau a dyfeisiau digidol.
2 Gweithio gyda'r diwydiant i ddarparu rhwydwaith teledu digidol ledled y DU.
3 Cynyddu'r arlwy Darlledu Sain Digidol (DAB).
4 Cefnogi gweithgarwch cyfathrebu Digital UK i feithrin ymwybyddiaeth o'r newid i ddigidol a'r parodrwydd ar ei gyfer.
5 Cydweithio â chyrff eraill i helpu pob cynulleidfa i ddeall a mabwysiadu technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd.
6 Cefnogi cynllun targedu cymorth y Llywodraeth i gynorthwyo'r bobl y mae angen help fwyaf arnynt yn ystod y newid i ddigidol.

Perfformiad o'i gymharu â'r diben

Trwy gydol ei hanes, mae'r BBC wedi gwneud cyfraniad cryf iawn o ran trosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd i gynulleidfa eang.

Yn ddiweddar, mae'r BBC wedi gweithio gyda'r diwydiant i drosglwyddo manteision y canlynol:

- **Teledu digidol am ddim:** Erbyn hyn, Freeview yw'r llwyfan teledu digidol mwyaf yn y DU (mae ar gael i 14 miliwn o gartrefi) diolch i rôl ganolog y BBC yn y gwaith o greu'r llwyfan a lansio BBC Three, BBC Four, CBBC, CBeebies, BBC News 24 a gwasanaethau botwm coch BBCi ar gyfer y llwyfan.
- **Radio digidol DAB:** Mae'r BBC wedi lansio pum gwasanaeth radio digidol newydd a buddsoddi mewn rhwydweithiau trosglwyddo sy'n cwmpasu 85% o'r boblogaeth (ym mis Ionawr 2008).
- **Y rhyngrwyd:** Mae'r BBC yn parhau i wneud cyfraniad pwysig o ran dangos grym y cyfrwng fel llwyfan ar gyfer cynnwys gwreiddiol, gan greu'r drydedd wefan fwyaf poblogaidd a'r gwasanaeth rhyngrwyd **symudol** (WAP) mwyaf poblogaidd yn y DU.

Un her sy'n wynebu'r BBC yw nad yw talwyr ffi'r drwydded yn ymwybodol o lawer o'i chyfraniad at y diben hwn. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod llawer o weithgarwch y BBC yn y maes hwn yn digwydd rhwng busnesau (er enghraifft, gweithio gyda'r diwydiant radio ar hyrwyddo DAB), heb ei gyflawni o dan frand y BBC (er enghraifft, Freeview) neu'n targedu cynulleidfaoedd arbenigol blaenoriaeth (fel WebWise).

Mae'r farn gyhoeddus hon yn cael ei hadlewyrchu yng nghanlyniadau Arolwg Cylch Gwaith Dibenion Ymddiriedolaeth y BBC sy'n nodi mai technolegau cyfathrebu newydd yw'r diben lleiaf pwysig i gynulleidfaoedd. (Fodd bynnag, mae ymchwil ddiweddar gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer Profion Gwerth Cyhoeddus wedi dangos bod talwyr ffi'r drwydded yn disgwyl i'r BBC ddarparu gwasanaethau newydd i drosglwyddo manteision technolegau cyfathrebu newydd i'r cyhoedd.)

Er gwaethaf y ffaith nad yw'r diben hwn yn ymddangos yn flaenoriaeth i gynulleidfaoedd, nododd ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth fwlch rhwng disgwyliadau'r gynulleidfa a'i barn am berfformiad y BBC, mewn perthynas â chefnogi gweithgarwch cyfathrebu Digital UK i feithrin ymwybyddiaeth o'r

newid i'r digidol (blaenoriaeth 4). Mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn bod y bwlch hefyd yn ymwneud â rôl y BBC o ran sicrhau parodrwydd cenedlaethol ar gyfer y newid i'r digidol (blaenoriaethau 2 a 5), er na nodwyd hyn yn benodol yn yr ymgynghoriad.

Ymateb y tîm rheoli i'r bylchau

Nod Dyfodol Creadigol, fframwaith strategol chwe blynedd y tîm rheoli ar gyfer cyflawni dibenion y BBC, yw cydgasglu, cryfhau a darparu cynnwys a gwasanaethau'r BBC trwy sawl llwyfan digidol.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd tîm rheoli'r BBC yn gweithredu mewn tri maes:

1 Creu gwasanaethau a thechnolegau newydd

Bydd y BBC yn buddsoddi mewn **ymchwil ac arloesed** ac yn gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu safonau technoleg newydd a fformatau cynnwys newydd, ynghyd â gwasanaethau newydd gan y BBC a fydd yn manteisio arnynt.

Trwy weithio gyda phartneriaid yn y diwydiant, bydd yn adeiladu ar lwyddiannau diweddar Freeview a Freesat i archwilio cyfleoedd i ddatblygu llwyfannau darlledu newydd wrth i dechnolegau a rhwydweithiau ddatblygu, lle mae sail resymegol glir, o ran gwerth cyhoeddus, dros wneud hynny. Bydd hefyd yn cyflwyno seilwaith darlledu ar gyfer y rhwydweithiau digidol newydd.

2 Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y gynulleidfa o wasanaethau a thechnolegau newydd

Bydd y BBC yn defnyddio'i gwasanaethau darlledu lleol a chenedlaethol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision technolegau newydd. Yn gyffredinol, bydd yn hyrwyddo gwasanaethau a chynnwys newydd i gynulleidfaoedd nad ydynt wedi mabwysiadu'r dechnoleg.

Yn fwy penodol, bydd y BBC yn darparu gwybodaeth am y broses o newid i'r digidol trwy ei gwasanaethau, gan dargedu cymunedau ac ardaloedd lleol fel sy'n briodol, cefnogi gwaith marchnata Digital UK a monitro gweithgareddau Digital UK i sicrhau bod cynulleidfaoedd targed yn cael eu cyflenwi'n unol ag ymrwymiadau penodol y BBC mewn perthynas â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb a'r swyddogaeth hon.

Bydd y BBC yn hyrwyddo dealltwriaeth o dechnolegau newydd trwy barhau i fuddsoddi yn llythrennedd y cyfryngau er mwyn gwella dealltwriaeth o fanteision technolegau newydd, yn enwedig ymhlith y cynulleidfaoedd sydd fwyaf agored i niwed.

3 Annog pobl i fabwysiadu gwasanaethau a thechnolegau newydd

Cynnwys a gwasanaethau'r BBC o bosibl yw'r modd mwyaf pwerus o ysgogi pobl i fabwysiadu technolegau newydd. Bydd y BBC yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaethau ar gais trwy ddarparu mynediad o'r fath i'w rhaglenni teledu a radio a thrwy ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio peth cynnwys o archif y BBC at ddibenion creadigol. Bydd hefyd yn comisiynu cynnwys newydd sy'n manteisio ar nodweddion gwahanol lwyfannau a thechnolegau, fel natur gyfranogol y rhyngrwyd.

Yn achos teledu digidol, bydd y BBC yn cydymffurfio â pholisi'r Digital Switchover Help Scheme i gyflwyno manteision teledu digidol i bawb yn y DU, gan gynnwys pobl sy'n fwy agored i niwed, ac yn parhau i ymgynghori â grwpiau targed trwy gydol y broses i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion penodol.

Bydd y BBC hefyd yn ysgogi pobl i fabwysiadu technolegau newydd trwy helpu i sefydlu safonau technegol o fewn y diwydiant sy'n helpu cynulleidfaoedd i ddod o hyd i'r technolegau hyn a'u defnyddio'n rhwyddach a mwy cyson, gan feithrin hyder y gynulleidfa a dosbarthu'r manteision yn eang.

Cyflawni blaenoriaethau'r diben

1 Sicrhau bod cynnwys a gwasanaethau deniadol digidol ar gael ar ystod eang o lwyfannau a dyfeisiau digidol

Ymddiriedolaeth y BBC: "Bydd y BBC yn cynnig rhaglenni a gwasanaethau diddorol a difyr y gellir eu derbyn drwy lawer o wahanol ddyfeisiau megis teledu digidol, radio digidol, ffonau symudol a'r rhyngrwyd."

Bydd y BBC yn ceisio:

- Comisiynu **cynnwys aml-lwyfan arloesol**.
- **Darparu'r dechnoleg** sy'n golygu y gellir cyflwyno'r cynnwys ar fwy nag un llwyfan.
- Sicrhau **partneriaethau** i gynyddu'r ddarpariaeth ar lwyfannau newydd.

Bydd y BBC yn buddsoddi mwy mewn cynnwys sydd wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio ar wahanol lwyfannau, yn enwedig mewn cynnwys clyweledol y tu hwnt i newyddion. Bydd modd cyflwyno'r cynnwys hwn trwy lwyfannau a gwasanaethau newydd fel BBC iPlayer, neu ei ddefnyddio mewn ffyrdd mwy rhyngweithiol trwy bbc.co.uk neu BBCi (sy'n hynod bwysig i'r rheini â set deledu ond heb gyfrifiadur yn eu cartrefi).

Bydd y BBC yn gwella'r ddelwedd ymhlith y gynulleidfa o ansawdd ei rhaglenni trwy gynnig cymysgedd o raglenni teledu mewn manylder uwch (HD) ar BBC HD.

Bydd y BBC yn buddsoddi'n sylweddol yn y technolegau a fydd yn gweddnewid y BBC yn sefydliad sy'n ymwneud â phroses gyfan cynhyrchu cynnwys digidol y gellir ei ddosbarthu'n fwy hyblyg ar draws gwahanol lwyfannau a dyfeisiau.

Fel y mae'r BBC wedi ei wneud yn y gorffennol gyda thechnolegau newydd fel teledu lloeren a chebl, bydd yn parhau i greu partneriaethau gyda sefydliadau dylanwadol ym maes llwyfannau newydd ac ymgynghori â grwpiau targed cynrychiadol i sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu darparu i holl gynulleidfaoedd y DU.

Mae'r BBC wedi ymrwymo i wella'i dealltwriaeth o sut mae cynulleidfaoedd anabl yn defnyddio gwahanol gyfryngau ac i archwilio barn y cynulleidfaoedd hynny am fecanweithiau darparu gwasanaethau'r BBC. Bydd yn archwilio'r meysydd hyn ymhellach trwy raglen ymchwil ansoddol a meintiol yn ystod y gwanwyn 2008.

2 Gweithio gyda'r diwydiant i ddarparu rhwydwaith teledu digidol ledled y DU

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC weithio'n glos gyda rhannau eraill o ddiwydiant digidol y DU i gynnig teledu digidol drwy gyfrwng DTT, DSat a chebl."

Mae'r BBC wedi ymrwymo i:

- Ddarparu **dewis** o ffyrdd i gael mynediad i deledu digidol **heb orfod tanysgrifio**.
- Darparu gwasanaeth **darlledu digidol cadarn, effeithlon** a hygyrch i holl dalwyr ffi'r drwydded.

Mae Freeview yn ffordd syml a rhad o dderbyn teledu digidol heb orfod tanysgrifio. Bydd y BBC yn gwneud ei gorau glas i sicrhau bod y llwyfan Freeview yn parhau i allu cystadlu â llwyfannau eraill ac yn manteisio ar dechnolegau newydd.

At y dyfodol, bydd Freesat yn cyfrannu at alluogi pob teulu yn y DU i fwynhau amrywiaeth eang o sianeli o safon, gan sicrhau bod holl wasanaethau'r BBC ar gael am ddim ledled y wlad wrth i ni baratoi ar gyfer y newid a thu hwnt. Bydd yn cryfhau presenoldeb digidol y BBC ac yn cynnwys rhaglenni manylder uwch heb orfod talu ffi danysgrifio fisol. Trwy Freesat, mae'r BBC yn gweithio gyda darlledwyr eraill, gweithredwyr teledu lloeren, cynhyrchwyr, manwerthwyr a gosodwyr i sicrhau lansiad esmwyth yn 2008 a chreu sail gref ar gyfer ei phresenoldeb parhaus.

Trwy weithredu ei gwasanaethau digidol llwyddiannus ei hun, bydd y BBC yn annog eraill yn y diwydiant i fuddsoddi mwy mewn teledu digidol, a thrwy hynny yn arwain y broses o newid i'r digidol. Bydd yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys grwpiau targed cynrychiadol a chwmnïau masnachol, sefydliadau anllywodraethol a chyrff y llywodraeth, i

ddarparu system ddarlledu sy'n diwallu anghenion amrywiol talwyr ffi'r drwydded yn y DU. Bydd y BBC yn parhau i weithio i roi'r seilwaith darlledu ar waith ar gyfer y rhwydweithiau digidol newydd ac i sicrhau cysondeb yng ngwasanaeth y rhwydweithiau teledu daearol digidol (DTT) pŵer isel ac analog.

3 Cynyddu'r arlwy Darlledu Sain Digidol (DAB)

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC gynyddu nifer y trosglwyddyddion i ehangu'r arlwy DAB i o leiaf 90% o'r boblogaeth awyr agored."

Bydd y BBC yn ehangu'r arlwy DAB trwy:

- Fuddsoddi yn y trosglwyddyddion DAB angenrheidiol i ehangu'r arlwy i'r lefel honno.
- Gweithio gyda chynhyrchwyr a gweithredwyr dyfeisiau symudol i wella derbyniad derbynyddion radio digidol dan do a symudol.

Bydd y BBC yn buddsoddi yn y rhwydwaith trosglwyddo sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod arlwy amlbleth DAB genedlaethol y BBC yn cael ei hehangu i 90% o'r boblogaeth awyr agored ar gyfer radio rhwydwaith. Mae'r contract ar gyfer gwneud hyn wedi'i lofnodi a disgwylir i'r trosglwyddyddion cyntaf i gael eu hadeiladu fel rhan o'r gwaith hwn ddod yn weithredol yn 2008.

Bydd y BBC yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol eraill i wella derbyniad gwasanaethau DAB dan do a symudol er mwyn cynyddu apêl y dechnoleg i gynulleidfaoedd. Bydd hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant i ehangu'r gynulleidfa ar gyfer gwasanaethau ar DAB. Bydd yn parhau i fuddsoddi yn ei gwasanaethau ei hun, gan greu cynnwys deniadol sy'n apelio at wrandawyr ac ehangu'r dewis o wasanaethau sydd ar gael iddynt. Bydd yn rhoi sylw i gynnwys o'i gorsafoedd digidol ar ei gwasanaethau analog ac, fel sy'n briodol, bydd yn cyflwyno'r gorau o blith y cynnwys llafar a cherddoriaeth gwreiddiol i'r cynulleidfaoedd ehangach sydd ar gael ar y gorsafoedd analog.

Dylid nodi bod gwasanaethau lleol y BBC a rhai'r gwledydd wedi neilltuo cyfran o signalau amlbleth masnachol lleol, felly mae arlwy yn yr ardaloedd hynny'n dibynnu ar i'r sector masnachol ddefnyddio'r amlblethau hyn, ac ar i'r BBC roi ei chymeradwyaeth i lunio contractau masnachol gyda gweithredwyr amlblethau lleol. Ni fydd y broses hon yn cael ei heffeithio gan benderfyniadau'r BBC mewn perthynas â gwariant ar drosglwyddyddion ar gyfer y rhwydwaith DAB cenedlaethol.

Bydd y BBC hefyd yn cyfrannu'n llawn at Weithgor Radio Digidol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystod 2008, sy'n edrych ar sut i hyrwyddo radio digidol, sicrhau ei le fel y prif ddull gwrando a chynyddu nifer y bobl sy'n ei ddefnyddio.

4 Cefnogi gweithgarwch cyfathrebu Digital UK i feithrin ymwybyddiaeth o'r newid i ddigidol a'r parodrwydd ar ei gyfer

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC weithio gyda Digital UK i sicrhau bod holl wylwyr teledu'r DU yn gwybod am y newid a'u bod yn cael cyfle i baratoi ar ei gyfer."

Bydd y BBC yn:

- Defnyddio **rhwydweithiau lleol a chenedlaethol** i gyfleu'r neges am y newid i'r digidol.
- Manteisio ar **wasanaethau lleol a rhanbarthol** i ddarparu technolegau cyfathrebu sy'n targedu ardaloedd daearyddol.

BBC One a BBC Two fydd y gwasanaethau allweddol a ddefnyddir i hyrwyddo'r newid i'r digidol, trwy negeseuon yn ystod rhaglenni sy'n atgoffa gwylwyr y byddant yn colli eu sianeli analog. Hefyd, mae hi'n debygol y defnyddir y gwasanaethau hyn i gynnal ymgyrchoedd teledu sy'n targedu'r gwaith o sicrhau bod y grwpiau sydd fwyaf agored i niwed, er enghraifft pobl hŷn a rhai pobl anabl, yn barod ar gyfer y newid.

Yn y ffyrdd hyn, bydd y BBC yn gweithio gyda Digital UK i sicrhau bod gwylwyr teledu'r DU yn gwybod am y newid ac yn cael cyfle i baratoi ar ei gyfer. Hefyd, bydd gwasanaethau rhanbarthol yn cyfleu neges fwy penodol wrth i'r newid ddod i rym ledled y DU.

O ganlyniad i ymgyrch Copeland yn 2007, cynhelir dadansoddiad trylwyr o raglen marchnata a chyfathrebu Digital UK gan arbenigwyr annibynnol. Bydd y gweithgareddau cyfathrebu'n enwedig yn elwa ar ddysgu gwersi gan ymgyrch sydd wedi'i chwblhau ac sy'n symud ymlaen i'r cam gweithredu a'r gwariant sylweddol cysylltiedig, a bydd y BBC yn ceisio dysgu o'r rhain. Bydd y BBC hefyd yn dadansoddi canlyniadau'r arolygon cynulleidfa a gynhelir gan Digital UK i olrhain llwyddiant yr ymgyrch lawn ac i sicrhau bod pob grŵp yn cael mynediad cyfartal.

5 Cydweithio â chyrff eraill i helpu pob cynulleidfa i ddeall a mabwysiadu technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd

Ymddiriedolaeth y BBC: "Dylai'r BBC weithio gyda chyrff eraill yn y DU i chwalu'r 'ffin ddigidol' rhwng y rhai sy'n mwynhau manteision technolegau digidol a'r rhai sydd y tu allan i'r grŵp hwnnw."

Bydd y BBC yn:

- **Gweithio i gefnogi llythrennedd cyfryngau** ei chynulleidfa i gyd.
- Ceisio rhoi **canllawiau dibynadwy** i'r gynulleidfa mewn perthynas â thechnolegau newydd.
- Gweithio gyda'r diwydiant ehangach i **ddarparu negeseuon clir** ynglŷn â manteision technolegau newydd.

Trwy weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, mae'r BBC yn ceisio helpu cynulleidfaoedd i ddefnyddio, deall a chreu gwahanol fathau o gyfryngau. Bydd y BBC yn parhau i wneud cyfraniad gweithredol at fentrau ar draws y diwydiant er mwyn hyrwyddo llythrennedd y cyfryngau, fel un o sylfaenwyr Tasglu Llythrennedd y Cyfryngau a'r Siarter Llythrennedd y Cyfryngau.

Mae'r BBC wedi rhoi pob math o brosiect a gwasanaeth ar waith gyda'r nod o wella llythrennedd y cyfryngau. Yr her at y dyfodol fydd ysgogi mwy o gydgysylltu ac atgyfnerthu i sicrhau darpariaeth gydlynol a chynhwysfawr a fydd yn werthfawr i gynulleidfaoedd, ar y teledu, ar y radio ac ar y rhyngrwyd. Caiff ymgyrch fawr ar draws pob llwyfan ei lansio i ymgysylltu â'r rheini nad ydynt yn gyfarwydd â'r cyfryngau digidol neu sy'n amharod i'w mabwysiadu.

Trwy bbc.co.uk, bydd y BBC yn darparu canllaw dibynadwy i'r byd digidol ehangach i bob defnyddiwr, beth bynnag fo'i gefndir neu ei brofiad. Ar gyfer pobl ifanc yn enwedig a grwpiau eraill sy'n agored i niwed, bydd yn cynnig lle diogel lle gellir dod o hyd i wybodaeth ddibynadwy, addysgiadol a difyr a lle gall defnyddwyr mwy creadigol rannu eu cynnwys eu hunain.

Bydd y BBC yn gweithio gyda phob sefydliad arall sy'n rhanddeiliad allweddol – cwmnïau masnachol, sefydliadau anllywodraethol a chyrff y llywodraeth – i greu negeseuon clir a dealladwy ynglŷn â manteision technolegau digidol.

6 Cefnogi cynllun targedu cymorth y Llywodraeth i gynorthwyo'r bobl y mae angen help fwyaf arnynt yn ystod y newid i ddigidol

Ymddiriedolaeth y BBC: "Yn ystod y newid i ddigidol bydd angen help ar rai grwpiau'n benodol i brynu a gosod offer newydd. Dylai'r BBC helpu i ddarparu cynllun cymorth y Llywodraeth ar gyfer y grwpiau hyn."

Bydd y BBC yn rhoi'r cynllun cymorth ar waith yn unol â pholisïau'r Llywodraeth. Bydd y BBC yn canolbwyntio ar helpu pobl 75 oed a hŷn a phobl ag anabledd difrifol i newid i'r digidol. Bydd yn cynnig y dull mwyaf cost-effeithiol o dderbyn teledu digidol ar un set deledu, gan osod y cyfarpar, uwchraddio'r erial os bydd angen a darparu cymorth parhaus o ran defnyddio'r cyfarpar.

Bydd y BBC yn cyfathrebu'n effeithiol â chwsmeriaid cymwys i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hawliau a'u bod yn cael cynnig cymorth yn y ffordd fwyaf priodol. Bydd yn parhau i ymgynghori â grwpiau targed i sicrhau bod yr amrywiaeth o fewn y grwpiau hynny ac ar eu traws yn cael ei chydnabod a'i hystyried yn llawn. Bydd yn cydgysylltu ei gweithgareddau cyfathrebu â gweithgareddau Digital UK ac yn gweithio'n agos ag elusennau a sefydliadau anllywodraethol eraill.

Caiff y cynllun ei adolygu mewn Adroddiad Blynyddol gan Ymddiriedolaeth y BBC, sydd â chyfrifoldeb penodol dros sicrhau ei werth am arian.